# JONES, EDWARD (1790 - 1860), gweinidog gyda'r M.C.

**Enw:** Edward Jones
**Dyddiad geni:** 1790
**Dyddiad marw:** 1860
**Priod:** Mary Jones (née Davies)
**Rhiant:** Mary Jones
**Rhiant:** Edward Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r M.C.
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd 11 Medi 1790, mab Edward Jones, Rhiwlas, plwyf Llanfihangel-genau'r-glyn, Sir Aberteifi, a Mary ei wraig. Addysgwyd ef i fod yn gyfrwywr, ac yn 20 oed aeth i Lundain lle y clywodd John Elias yn pregethu, ac yna i Fryste. Dychwelodd i'w gynefin a dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; neilltuwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1829. Rhagorai nid yn gymaint fel pregethwr ag fel addysgwr ac arbenigwr yngl n â meddiannau, cyfansoddiad, a disgyblaeth y cyfundeb. Priododd Mary, merch David Davies o Fachynlleth a chwaer Robert Davies; bu farw 29 Awst 1860, a'i gladdu (y cyntaf) ym mynwent newydd Aberystwyth.

## Awdur

**Thomas Iorwerth Ellis**, (1899 - 1970)

## Ffynonellau

John Evans, *Byr-gofiant am naw a deugain o Weinidogion Ymadawedig sir Aberteifi* (1894-1913), 1894

*Y Drysorfa*, 1860, 360

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732955

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu